



Cwm Taf Morgannwg  
Bwrdd Diogelu  
Safeguarding Board

# PROTOCOL GORCHMYNION AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg	Dyddiad: Rhagfyr 2019	Statws: A5 WEDI'I GYMERADWYO Rhagfyr 2019
Awdur: Jackie Neale	Fersiwn Flaenorol: Medi 2017	Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2022

## 1. DIBEN A CHWMPAS Y PROTOCOL

1.1 Mae Adran 127, Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) (SSWBA) yn cyflwyno Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (APSOau). Mae'r Gorchmynion hyn yn darparu fframwaith deddfwriaethol i ganiatáu i Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Lleol i wneud cais i Lys yr Ynadon i;

- Alluogi Swyddog Awdurdodedig, ac unrhyw unigolyn arall sydd gyda'r swyddog, i gael sgwrs breifat ag unigolyn y tybir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- Galluogi Swyddog Awdurdodedig i bennu p'un a yw'r unigolyn hwnnw yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; a
- Galluogi Swyddog Awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel y mynnir gan adran 126(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) ar ba gamau ddylid eu cymryd, os o gwbl.

**Mae'n bwysig bod yr holl staff yn ymwybodol nad yw APSO yn cynnwys unrhyw bŵer i symud yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg, neu unrhyw gyflawnwr a amheuir o'i eiddo.**

1.2 Gellir gweld Manylion Llawn *Canllawiau Statudol ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion* Llywodraeth Cymru, *Gweithio gyda'n Gilydd i ddiogelu pobl, Cyfrol 4*, drwy'r hyperddolen isod

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160909safeguarden.pdf>

1.3 Mae Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn gosod cyfyngiadau ar bwy gaiff weithredu fel Swyddog Awdurdodedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu i swyddog o'r awdurdod lleol lle mae'r "oedolion sy'n wynebu risg" yn preswyllo weithredu fel Swyddog Awdurdodedig. Pan nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r Swyddog Awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Diogelu, ac os nad yw hyn yn ymarferol, gall Swyddog Awdurdodedig fod yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Gorchmynion sifil y gall Swyddog Awdurdodedig wneud cais amdanynt yw APSOau. Mae'n rhaid i Swyddog Awdurdodedig fod yn unigolyn wedi'i awdurdodi gan awdurdod lleol at y diben.

Mae'r Swyddogion Awdurdodedig canlynol gan ranbarth Cwm Taf Morgannwg;

Terri Warrilow: Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel (Swyddog Arweiniol)

[Terri.Warrilow@bridgend.gov.uk](mailto:Terri.Warrilow@bridgend.gov.uk) ffôn: 01656 642476

Glynis Evans: Rheolwr Tîm Iechyd Meddwl

[Glynis.Evans@bridgend.gov.uk](mailto:Glynis.Evans@bridgend.gov.uk) ffôn: 01656 642259

Jackie Neale: Rheolwr Gwasanaeth Diogelu Oedolion Rhondda Cynon Taf (Swyddog Arweiniol)

[Jackie.Neale@rctcbc.gov.uk](mailto:Jackie.Neale@rctcbc.gov.uk) ffôn: 01443 425447

Alexandra Beckham: Pennaeth Gwasanaeth, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau ac Anableddau Dysgu

[Alexandra.Beacham@rctcbc.gov.uk](mailto:Alexandra.Beacham@rctcbc.gov.uk) ffôn: 01443 425401

Frances Hall: Pennaeth Gwasanaeth, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau ac Anableddau Dysgu, Rhondda Cynon Taf

[Frances.E.Hall@rctcbc.gov.uk](mailto:Frances.E.Hall@rctcbc.gov.uk) ffôn:01443 444593

Nicola Roberts: Uwch Weithiwr Cymdeithasol, Merthyr Tudful

[Nicola.Roberts@merthyr.gov.uk](mailto:Nicola.Roberts@merthyr.gov.uk) ffôn: 01685 351116 (Swyddog Arweiniol)

Diben y protocol hwn yw amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyflawni rôl y Swyddog Awdurdodedig yn weithredol, y broses gwneud cais a'r modd y dylai asiantaethau partner weithio gyda'i gilydd i sicrhau y cyflawnir arfer gorau.

## **2. PRYD Y GALLAI GORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION FOD YN BRIODOL**

2.1 Rhagwelir mai anaml y bydd cais yn cael ei wneud am APSO. Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud dim ond pan fydd opsiynau eraill llai ymwithiol wedi methu neu'n hynod debygol o fethu. Y canlyniad a fwriedir yw mai dim ond ar ôl cymryd pob cam arall i gael sgwrs breifat gyda'r unigolyn cyn troi at ddefnyddio'r broses gyfreithiol y gwneir ceisiadau i'r Llys. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i Swyddogion Awdurdodedig brofi'r angen am yr APSO y tu hwnt i bob amheuaeth resymol: mae'r Gorchymyn yn orchymyn sifil a bydd yr Ynad yn gwneud penderfyniad yn ôl pwysau tebygolrwydd. Mae'r angen am APSO yn rhannol oherwydd bod gwybodaeth annigonol am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

2.2 Bydd angen i'r Swyddog Awdurdodedig allu dangos bod y sail o dan adran 127(4) yn cael ei chyflwyno, h.y.

- bod achos rhesymol i amau bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- ei bod yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael mynediad at yr unigolyn er mwyn asesu'n briodol pa un a yw'r unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
- bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) (fel y disgrifir uchod); ac
- na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r unigolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

## **3. PRYD EFALLAI NA FYDD GORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION YN BRIODOL**

3.1 Mae APSOau wedi eu cynllunio i alluogi oedolion agored i niwed fynegi eu safbwyntiau'n annibynnol i Swyddog Awdurdodedig pan geir rheswm i gredu eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Fodd bynnag, efallai na fydd APSO yn briodol os:

- gallai caniatáu APSO adael yr unigolyn mewn mwy o berygl;
- nad yw dulliau eraill llai ymwithiol wedi cael eu hystyried

Dylid ystyried opsiynau cyfreithiol eraill hefyd, gan y gallant fod yn fwy priodol ac yn fwy effeithiol. Gallai'r rhain gynnwys:

- cais am Hysbysiad Amddiffyn Trais Domestig a Gorchymyn gan yr Heddlu sy'n galluogi symud y cyflawnwr a amheuir o'r eiddo

- cais brys i'r Llys Gwarchod o dan Adran 16, Deddf Galluedd Meddyliol, 2005
- cais o dan A135(1), Deddf Iechyd Meddwl, 1983 gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, a fyddai'n galluogi symud yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg o'r eiddo i le diogel er mwyn asesu ei anghenion ymhellach.

#### **4. CAIS AM YSTYRIED CAIS AM ORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION (APSO):**

4.1 Dylid darllen *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 4* ar y cyd â'r protocol hwn. Mae'r protocol hwn yn mynd i'r afael yn benodol â'r agweddau ymarferol o ran gwneud ceisiadau am APSO ar gyfer oedolion yr amheuir eu bod yn wynebu risg ac sy'n byw yn ardal Cwm Taf Morgannwg; nid yw'n disodli'r arweiniad uchod.

4.2 Mae disgwyl y bydd ymholiadau ynglŷn â'r angen am gais am APSO ond yn cael eu gwneud drwy adroddiadau Diogelu o dan Adran 128 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (SSWBA). Os dynodir yn ystod yr ymholiad Adran 126 (SSWBA) y gall fod angen cais am APSO, bydd y Cydlynnydd Diogelu Arweiniol yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth perthnasol yn trafod yr achos gyda'r swyddog arweiniol perthnasol o fewn ei sefydliad (os nad yw ar gael, bydd angen cynnal trafodaeth gyda Swyddog Awdurdodedig arall, o'r Awdurdod lle mae'r Oedolyn yr amheuir ei fod yn Wynebu Risg yn byw os oes modd, ond os nad yw hyn yn bosibl, gydag unrhyw Swyddog Awdurdodedig yng Nghwm Taf Morgannwg). Bydd y swyddog arweiniol yn nodi Swyddog Awdurdodedig priodol i ymgymryd â'r gwaith hwn.

4.3 Yn y lle cyntaf, bydd y Swyddog Awdurdodedig a benodwyd yn mynd i'r cyfarfod strategaeth, gyda chynghorydd cyfreithiol ar gyfer yr Awdurdod lle mae'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn byw o bosibl, i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn asesu a oes angen gwneud cais. Mae'n hanfodol bod yr heddlu yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses ystyried y cais gan ei bod yn debygol y bydd eu cyfraniad yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r APSO. Os yw trafodaeth/cyfarfod strategaeth wedi'u cynnal yn flaenorol, yna bydd angen ail-drefnu hyn er mwyn hwyluso pethau i'r Swyddog Awdurdodedig, cynrychiolydd cyfreithiol a'r heddlu fynychu.

4.4 Yn y cyfarfod strategaeth, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn sicrhau bod pob cam wedi'i gymryd i ymgysylltu â'r Oedolyn sy'n Wynebu Risg: mae hyn yn hanfodol er mwyn darparu tystiolaeth i'r Llys pe bai cais yn cael ei wneud, gan y bydd angen i'r Swyddog ddangos bod opsiynau amgen i APSO wedi'u harchwilio'n llawn. Gorchymyn a ddefnyddir pan fydd pob cam arall wedi methu yw Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Gall y Swyddog Awdurdodedig wneud argymhellion pellach cyn gwneud y cais, a bydd yn cynghori ynglŷn â'r rhain trwy gydol y broses ddiogelu.

4.5 Os yw'r Swyddog Awdurdodedig yn cytuno bod cais am APSO yn angenrheidiol ac yn gymesur, bydd yn gweithio gyda'r ymgynghorydd cyfreithiol priodol i gwblhau a chyflwyno'r cais i'r Llys (Llys Ynadon Merthyr neu Gaerdydd) a bydd yn gwneud hynny gan ddilyn y dulliau cam wrth gam yn y canllawiau:

- Casglu Tystiolaeth

- Ystyried pa bobl i fod gyda'r swyddog awdurdodedig y dylid gwneud cais i'w henwi yn y Gorchymyn. Dylid rhoi ystyriaeth yn benodol i'r hyn a wyddys am anghenion eiriolaeth neu gyfathrebu'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.
- Ystyried faint o gysylltiadau y dylid gofyn amdanynt a'r ffrâm amser i'r cysylltiadau hynny gael eu gwneud
- Ystyried p'un a ddylid gofyn am gais ex parte (heb hysbysiad)
- Cwblhau a chyflwyno'r cais i'r Llys Ynadon (gan gynnwys trefniadau ar gyfer talu ffi'r Llys)
- Y gwrandawriad
- Cynllunio a chefnogi rheoli risg yn uniongyrchol ar ôl APSO

4.6 Bydd y swyddog APSO yn sicrhau ei fod yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweithredu'r Gorchymyn, gan gynnwys cynllunio strategaeth ymadael a fydd yn nodi cymorth priodol ar gyfer yr oedolyn sy'n wynebu risg: mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r warchodaeth, gofal a chymorth parhaus ar gyfer yr unigolyn. Bydd angen cynllunio hyn yn effeithiol ym mhroses y cyfarfodydd strategaeth a bydd angen rhoi tystiolaeth o hyn yn y cais i'r Llys.

4.7 Os mynegir pryderon mewn perthynas â'r broses gwneud penderfyniad, cyfeirir y rhain fel achosion pryderon i'r is-grŵp sicrhau ansawdd oedolion.

4.8 Er mwyn i'r cais gael ei glywed yn y Llys ac yn ystod gweithredu'r Gorchymyn, bydd angen i'r Swyddog Awdurdodedig ddangos cerdyn adnabod i'r oedolyn sy'n wynebu risg a darparu'r rhesymau pam ei fod yn mynychu (darperir canllawiau uniongyrchol ar gyfer hyn yng Nghyfrol 4). Mae bron yn sicr y bydd angen cefnogaeth yr heddlu yn ystod y broses o weithredu'r Gorchymyn er mwyn sicrhau y gellir bodloni'r amcanion heb greu unrhyw berygl i'r oedolyn sy'n wynebu risg, unrhyw un arall sy'n byw yn yr eiddo neu'r Swyddog Awdurdodedig. Argymhellir bod hyn yn cael ei gefnogi drwy'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth er mwyn adnabod swyddog sydd wedi derbyn hyfforddiant addas mewn perthynas â phryderon Oedolion sy'n Wynebu Risg.

## **5. GWEITHREDU'R GORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION (APSO)**

5.1 Pan fydd APSO wedi'i wneud, gall y Swyddog Awdurdodedig, swyddog o'r heddlu ac unrhyw unigolion eraill a bennwyd yn y Gorchymyn fynd i mewn i'r eiddo, gan ddefnyddio grym rhesymol os yw'n angenrheidiol, lle mae oedolyn sy'n wynebu risg yn byw, er mwyn cael sgwrs breifat gyda'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Mae grym gan yr heddlu i ymyrryd pe bai unrhyw unigolyn yn rhwystro'r sgwrs breifat hon.

5.2 Dylai'r Swyddog Awdurdodedig egluro i'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg, ac i unrhyw un arall sy'n bresennol yn yr eiddo, fod y Gorchymyn wedi'i wneud, a dylai fod ganddo gopiâu o'r Gorchymyn i'w rhoi i'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

5.3 Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn arwain y sgwrs a dylai hon gynnwys ystyriaeth o risg, statws iechyd, galluedd a gallu'r unigolyn i amddiffyn ei hun. Bydd angen hefyd iddo gynnwys asesiad o ddealltwriaeth yr unigolyn o'r hyn sy'n digwydd a beth yw ei

ddymuniadau. Mae'n rhaid rhoi pwys priodol i'w ddymuniadau, gan gofio ystyried y posibilrwydd o ddylanwad amhriodol.

5.4 Mae adran 127(2)(b) yn nodi mai un o ddibenion yr APSO yw sicrhau bod yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn 'gwneud penderfyniadau o'i wirfodd'. Mae'n dilyn y dylai'r rheiny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r APSO sicrhau nad ydynt yn arfer dylanwadu gormodol. Mae'n rhaid iddynt fod yn ymwybodol y gallai'r oedolion yr amheuir ei fod yn wynebu risg gael ei ddychryn gan y defnydd o bwerau statudol a phresenoldeb nifer o ddiethriaid yn ei gartref, gan gynnwys cwnstabl yr heddlu. Efallai y bydd angen eiriolwr i sicrhau y gall yr unigolyn herio safbwyntiau'r ymarferwyr.

5.5 Bydd yn bwysig bod strategaeth ymadael wedi ei datblygu fel y gall y swyddog awdurdodedig esbonio'n eglur, i'r unigolyn agored i niwed ac i'r deiliaid eraill, yr hyn fydd yn digwydd ar ôl yr ymweliad, unrhyw gamau dilynol a gynigir, ac unrhyw ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt.

## **6. CAMAU GWEITHREDU YN DILYN CAIS AM ORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION**

6.1 Yn dilyn y cais a gweithredu'r warrant, mae'n hanfodol ad-drefnu cyfarfod strategaeth er mwyn rhannu gwybodaeth a chynllunio mewn modd effeithiol. Fodd bynnag, os yw'r Oedolyn sy'n Wynebu Risg yn gwrthod rhannu gwybodaeth, ac nid yw'n dymuno i'r gwasanaethau amddiffyn fod yn gysylltiedig, nid oes unrhyw bryderon mewn perthynas â'i alluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw neu, tra'i fod yn feddyliol alluog, mae'r Oedolyn sy'n Wynebu Risg yn destun rheolaeth drwy orfodaeth, ac nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch Oedolion eraill sy'n Wynebu Risg, plant na'r cyhoedd, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn adrodd hyn yn ôl i'r Ymarferydd Arweiniol/Swyddog Diogelu.

6.2 Bydd y camau uchod yn cael eu cwblhau'n uniongyrchol yn dilyn gweithredu'r Gorchymyn.

6.3 Bydd y swyddog APSO yn rhoi crynodeb i is-grŵp Sicrhau Ansawdd Amddiffyn Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf Morgannwg er mwyn rhannu dysgu, a bydd yn trefnu sesiwn frifio ar gyfer Swyddogion Awdurdodedig eraill. Bydd Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu yn cadw cronfa ddata o'r holl geisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion sydd wedi'u gwneud.

## **Atodiad A**

### **Ffurflen gais ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion**

**Cais trwy gŵyn am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a.127**

Llys Ynadon (Cod):

.....

Dyddiad:

.....

Testun y Gorchymyn:

.....

Cyfeiriad:

.....  
.....  
.....  
.....

Awdurdod Ymgeisio:

.....  
.....

A honnir:

(a) bod..... yn dioddef neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, bod ganddo anghenion gofal neu gymorth ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nad yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y perygl o hynny; a

(b) bod Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn angenrheidiol i'r Swyddog Awdurdodedig gael mynediad at yr unigolyn a enwir uchod, er mwyn asesu'n briodol a yw'r unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd; a

(c) mae gwneud gorchymyn yn angenrheidiol i gyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; ac

(ch) na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r unigolyn a enwir uchod fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Disgrifiad cryno o'r sail ar gyfer y cais:

(a).....

(b).....

(c).....

(ch).....

Credaf ei bod yn briodol i'r unigolyn (unigolion) canlynol fod gyda mi wrth arfer y gorchymyn (yn unol ag Adran 127(6)(b) y Ddeddf):

- (a).....
- (b).....
- (c).....
- (ch).....

A ydych chi'n dymuno i'r cais hwn gael ei glywed:

- i) heb hysbysu'r diffynnydd; neu
- ii) ar ôl hysbysu'r diffynnydd.

Os ydych yn dymuno i'r cais gael ei glywed heb roi hysbysiad, nodwch eich rhesymau:

.....  
.....  
.....

A ydych chi'n dymuno i orchymyn gael ei ganiatáu gyda neu heb ofyniad i hysbysu meddiannydd yr adeilad ac i'r unigolyn yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg? Nodwch eich rhesymau:

.....  
.....

Mae'n rhaid i'r gorchymyn nodi'r cyfnod y bydd mewn grym. A oes unrhyw faterion yr ydych yn dymuno eu codi sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwn?

.....  
.....

Enw'r Awdurdod Ymgeisio:

.....

Cyfeiriad yr Awdurdod Ymgeisio:

.....  
.....

Sy'n datgan bod y manylion uchod yn ddisgrifiad gwir a chywir o'r sail y gwneir y gŵyn hon arni:

.....  
.....  
.....

Cymerwyd ger fy mron i

Yr Ynad Heddwch  
[Trwy orchymyn clerch y llys]

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ystyriwch ei bod yn berthnasol i'r cais hwn:

.....  
.....



.....  
Enghreiffiau o'r math o unigolyn a allai fod gyda Swyddog Awdurdodedig:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr proffesiynol;
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd budd pennaf;
- ymarferydd cyffredinol; neu
- Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

## ATODIAD B SIART LLIF

A yw'r unigolyn yn Oedolyn yr Amheuir ei fod yn Wynebu Risg?



A oes pob ymdrech wedi'i gwneud i gael sgwrs breifat gyda'r unigolyn ac a ydynt wedi methu?



A yw'r pryderon wedi cael eu dogfennu ac a yw pob ymgais i siarad â'r Oedolyn yr Amheuir ei fod yn Wynebu Risg wedi'u cofnodi?



Os ydynt, adroddwch eich pryderon i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth a fydd yn cysylltu â Swyddog Awdurdodedig os oes angen, a bydd yn trefnu cyfarfod strategaeth amlasiantaeth er mwyn rhannu gwybodaeth a chasglu tystiolaeth ychwanegol. Dylid llunio mantolen o fuddion a risgiau gwneud cais APSO yn y cyfarfod.



Os mai canlyniad y cyfarfod strategaeth yw y dylid gwneud cais am APSO, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gweithio gyda chynghorydd cyfreithiol yr Awdurdod Lleol i baratoi a chyflwyno'r cais i'r Llys.



Mae'r Swyddog Awdurdodedig, Cynghorydd Cyfreithiol ac unrhyw dystion yn mynychu'r Llys ac yn rhoi tystiolaeth fel bo'r gofyn.



Os caniateir yr APSO, rhaid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i'r unigolyn, gan gynnwys copi o'r Gorchymyn Llys, ynghyd â gwybodaeth ysgrifenedig am gŵynion



Cynllunio a gweithredu'r Gorchymyn yn unol â chyfarwyddyd y Llys, a chynnal sgwrs breifat gyda'r Oedolyn yr amheuir ei fod yn Wynebu Risg.



Datblygu strategaeth ymadael a chymorth parhaus os oes angen



Cofnodi'r canlyniadau



Unrhyw APSO sydd heb ei ddefnyddio i'w ddychwelyd i'r Llys